**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2011**

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Adroddiad gan y Cynghorydd Sharon Frobisher**
**Cadeirydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd eu swyddi rhwng yr 22ain Mawrth a 20fed Mehefin 2011.

## Gwybodaeth

2 Yn y rhestr isod, mae'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychodd y Cadeirydd (C) a/neu'r Is-Gadeirydd (IG):

| | |
|---|---|
| 25$^{ain}$ Mawrth | Cwrs y Ffenics II, Llanfairfechan |
| 4$^{th}$ Ebrill | Agor Tendr (C) |
| 14$^{eg}$ Ebrill | Cyfarfod â Phanel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (C) |
| 15$^{fed}$ Ebrill | Cwrs y Ffenics, Yr Wyddgrug |
| 6$^{ed}$ Mai | Cyfarfod gyda'r Undebau cyn y Panel Gweithredol (C ac IG) |
| 9$^{fed}$ Mai | Cyfarfod Panel Gweithredol (C ac IG) |
| 13$^{eg}$ Mai | Cwrs y Ffenics, Y Waun |
| 20$^{fed}$ Mai | Cwrs y Ffenics, Abergele |
| 3$^{ydd}$ Mehefin | Cyfarfod Panel Tân ac Achub LlCC drwy fideo-gynadledda (C ac IG) |
| 6$^{ed}$ Mehefin | Cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru i drafod yr Asesiad Corfforaethol (C) |
| 7$^{fed}$ Mehefin | Gweithgor RRP (C ac IG) |
| 10$^{fed}$ Mehefin | Cwrs y Ffenics, Amlwch (C ac IG) |

3 Ar 14eg Ebrill, bu’r Cadeirydd a’r Cynghorydd W P Roberts yn cyfarfod â chynrychiolwyr Panel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i drafod lwfansau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

4 Mae disgwyl i'r trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar lwfansau eich aelodau newid pan fydd y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) yn dod i rym eleni. Bydd y Mesur yn ehangu pwerau a chylch gwaith y Panel i gael penderfynu ar lwfansau aelodau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol a’r Awdurdodau Tân ac Achub. Roedd gan y Panel felly ddiddordeb mewn trafod manteision a chyfyngiadau'r trefniadau presennol a pha feysydd ddylid eu hadolygu. Cynhaliwyd cyfarfod tebyg yn 2009 gyda’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd. Disgwylir canlyniadau’r gwaith yn ddiweddarach eleni.

5 Yng nghyfarfod Panel Tân ac Achub LlCC trafodwyd y materion canlynol: Ymgynghorydd Tân ac Achub, Etholiadau’r Cynulliad a Phenodiadau Gweinidogaethol, Ymrwymiad yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr a’r effaith ar Wasanaethau Tân ac Achub; Cyllidebau; Adolygiad Simpson; Grŵp Datblygu Aelodau Cymru gyfan.

6 Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Tân, Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ar 15fed Ebrill, 6ed Mai, 26ain Mai ac 17eg Mehefin.

**Argymhelliad**

7 Argymhellir fod Aelodau’n nodi’r wybodaeth a ddarparwyd.